

Cwestiynau Meddwl Beirniadol – Y Chwe Chwestiwn

PWY?	BETH?
• Pwy ysgrifennodd e? • Ydyn nhw'n academydd, ymarferydd, newyddiadurwr ac ati • Beth yw natur y sefydliad / ffynhonnell? (e.e. cyfnodolyn, llywodraeth, elusen ac ati)	• Beth yw prif bwrpas y papur / erthygl / paragraff / adroddiad / blog? • Beth mae hyn yn ei ychwanegu at ein gwybodaeth? • Beth yw'r dystiolaeth mae'r awduron wedi'i defnyddio? • Beth yw lefel academaidd y ffynhonnell hon? (h.y. a yw'n addas ar gyfer fy lefel astudio i)
PAM?	PRYD?
• Pam cafodd ei ysgrifennu? (e.e. i addysgu, i ddwyn perswâd, i werthu cynnyrch, i newid arfer) • Pam mae'n ddefnyddiol? (h.y. a yw hyn yn fy helpu i ateb fy aseiniad?)	• Pryd y cafodd ei ysgrifennu? • Ydy'r cyd-destun wedi newid ers iddo gael ei ysgrifennu? • Os yw'n ffynhonnell hŷn, a yw'n dal i fod yn berthnasol? (e.e. Maslow, Vygotsky ac ati)
BLE?	SUT?
• Ble y cafodd ei gyhoeddi? • Ble ddigwyddodd yr ymchwil? • Ble mae'r ddeddfwriaeth / polisi yn berthnasol? • Felly, a yw'n berthnasol i gyd-destun fy ymchwil i?	• Sut alla i wirio atebion unrhyw rai o'r cwestiynau uchod? • Sut ydw i'n gwybod y gallaf ymddiried yn y ffynhonnell? (h.y. pa mor ddibynadwy yw'r ffynhonnell?)

Cwestiynau Meddwl Beirniadol – Y Chwe Chwestiwn

	• Os mai newyddiaduraeth yw'r darn, sut alla i ddod o hyd i'r ffynhonnell wreiddiol?
--	--